Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefel Rhybudd Sero

(Gorffennaf 2021)

Rhagair y Gweinidogion

Mae'r pandemig yn parhau i wneud y cyfnod hwn yn un heriol i bawb yng Nghymru, yn enwedig i'r holl deuluoedd hynny sydd wedi colli anwyliaid i'r feirws ofnadwy hwn a phawb sy'n dioddef o COVID hir.

Rydym i gyd yn edrych ymlaen at adeg pan na fyddwn mwyach yn byw yng nghysgod y coronafeirws a'r cyfyngiadau, sydd wedi bod – ac sy'n parhau i fod – yn angenrheidiol i'n hamddiffyn ni i gyd. Hoffem ddiolch i bawb ledled Cymru am yr aberthau y maent wedi'u gwneud ac am eu hymdrechion bob dydd i gadw Cymru'n ddiogel.

Mae brechu wedi newid ein perthynas â'r feirws ac rydym ar drothwy cyfnod newydd o'r pandemig. Diolch i waith caled y miloedd o bobl sydd wedi gweithio'n ddiflino ar ein rhaglen frechu lwyddiannus, gallwn fod yn obeithiol am ddyfodol â llai o gyfyngiadau symud.

Wrth i ni gyhoeddi diweddariad haf 2021 o *Gynllun Rheoli'r Coronafeirws*, mae dros 72% o oedolion Cymru wedi cael y ddau frechiad. Rydym yn hyderus bod cael dau ddos o'r brechlyn yn gwanhau'r cysylltiad rhwng haint, salwch difrifol, mynd i'r ysbyty a marwolaeth.

Mae hyn yn golygu nad yw'r cyfraddau uwch o achosion, yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd o ganlyniad i amrywiolyn Delta, yn arwain at yr un lefelau o salwch difrifol a welsom yn nwy don gyntaf y pandemig. Mae elfennau niweidiol eraill y pandemig, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau, bellach yn dechrau gorbwyso niwed uniongyrchol y feirws, ac mae angen i ni ystyried hynny yn ein dull o reoli'r sefyllfa.

Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn glir – nid yw hyn yn golygu bod y pandemig ar ben. Mae'r coronafeirws yn dal gyda ni. Bydd yn parhau i heintio pobl ac, yn y rhai nad ydynt wedi'u brechu neu nad ydynt wedi'u brechu'n llawn, mae'r risg o fynd yn ddifrifol wael neu o fod angen triniaeth ysbyty yn llawer uwch.

Mae angen i bob un ohonom barhau i weithio gyda'n gilydd i gadw lefelau'r coronafeirws dan reolaeth - os bydd cyfraddau achosion yn codi'n ddiatal, mae mwy o berygl o niwed hirdymor i bobl yn sgil COVID hir, a mwy o risg y bydd mwy o bobl yn datblygu afiechyd difrifol, y bydd angen triniaeth ysbyty arnynt ac y byddant yn marw. Mae hyn yn ei dro yn rhoi pwysau anghynaliadwy ar y GIG, a allai ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cyfyngiadau newydd.

Mae'r dystiolaeth wyddonol hefyd yn awgrymu bod amrywiolion newydd, na fyddant efallai'n ymateb i'r brechlynnau, yn fwy tebygol o ddatblygu pan fydd lefelau'r achosion o'r coronafeirws yn uchel.

Mae ein hymateb i'r pandemig hyd yma wedi bod yn ymdrech ar y cyd – mae'r cyhoedd, y llywodraeth, cyflogwyr, busnesau, undebau llafur, darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector i gyd wedi cydweithio. Mae gennym ddyletswydd i barhau i wneud hynny i helpu i gadw'r feirws dan reolaeth wrth i ni ddechrau ar y cyfnod newydd hwn o'r pandemig.

Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon o *Gynllun Rheoli'r Coronafeirws* yn nodi sut y gallwn symud y tu hwnt i'r mesurau lefel rhybudd un presennol i "lefel rhybudd sero" newydd, a fydd yn ein gweld yn symud i ffwrdd yn raddol oddi wrth gyfyngiadau cyfreithiol cymhleth.

Nid ydym eto wedi cyrraedd sefyllfa lle gallwn gael gwared ar bob amddiffyniad ac – yn unol â'r cyngor gwyddonol a'r cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf – byddwn yn cadw rhai mesurau ar waith ar lefel rhybudd sero. Byddwn yn darparu gwybodaeth, canllawiau iechyd cyhoeddus a chymorth i'ch helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am sut i gadw'n ddiogel.

Mae camau amddiffynnol yn parhau i fod yn bwysig iawn – mae'r rhain yn cynnwys cadw eich pellter lle bynnag y bo modd; cyfyngu ar nifer y bobl rydych yn cwrdd â nhw'n gymdeithasol a'r amser rydych yn ei dreulio gyda nhw; cyfarfod yn yr awyr agored neu mewn mannau sydd wedi'u hawyru'n dda; osgoi mannau gorlawn lle bynnag y bo modd a gwisgo gorchudd wyneb pan nad yw hynny'n bosibl. Bydd gorchuddion wyneb yn parhau i fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith mewn rhai sefyllfaoedd, megis trafnidiaeth gyhoeddus a lleoliadau gofal iechyd.

Ar lefel rhybudd sero:

- Ni fydd unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar nifer y bobl sy'n gallu cwrdd ag eraill, gan gynnwys mewn cartrefi preifat, mewn mannau cyhoeddus ac mewn digwyddiadau.
- Bydd pob busnes a safle yn gallu ailagor.
- Bydd cynnal asesiad risg ar gyfer y coronafeirws yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau.
- Bydd yn dal i fod yn ofynnol i fusnesau, cyflogwyr a sefydliadau eraill ddilyn mesurau rhesymol i reoli'r risg o ran y coronafeirws ar eu safle.
- Mater i bob sefydliad fydd ystyried y mesurau rhesymol i'w dilyn, megis cadw pellter corfforol a rheolaethau eraill, yn dibynnu ar natur y safle a'r risgiau a nodir o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

- Dylai pobl barhau i weithio gartref os yw hynny'n bosibl. Os bydd gennych unrhyw symptomau, dylech hunanynysu a threfnu prawf.
- Bydd gorchuddion wyneb yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol mewn mannau cyhoeddus dan do, megis ar drafnidiaeth gyhoeddus, wrth siopa ac yng nghyd-destun gwasanaethau gofal iechyd. Dylai busnesau a chyflogwyr hefyd ystyried defnyddio gorchuddion wyneb yn y gweithle fel rhan o'u hasesiad risg ar gyfer y coronafeirws.

Mae lefel rhybudd sero yn gam pwysig arall tuag at allu byw gyda feirws endemig.

Bydd angen i bob un ohonom wneud ein rhan fel sefydliadau, cyflogwyr ac unigolion i gadw Cymru'n ddiogel.



Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd
a Gwasanaethau Cymdeithasol

OGL © Hawlfraint y Goron 2021, WG43041, ISBN digidol 978-1-80195-672-7

Cyd-destun

Cefndir

Ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r fframweithiau canlynol sy'n disgrifio'r data, y dull gweithredu a'r egwyddorion rydym wedi'u hystyried er mwyn ymateb i'r feirws a chyfyngu ar ei ledaeniad.

- *Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad*[1] (Ebrill 2020).
- *Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod*[2] (Mai 2020) yn nodi dull gofalus a graddol o weithredu'r cyfyngiadau gan ddefnyddio system goleuadau traffig.
- Roedd *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru* (Awst 2020) yn darparu'r dull gweithredu ar gyfer y system gyfan ac yn tynnu sylw at rôl hanfodol ymatebion lleol a rhanbarthol.
- Roedd *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru*[3] (Rhagfyr 2020) yn nodi mesurau yn seiliedig ar fframwaith o bedair lefel rhybudd.
- Yn *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru – Llacio'r cyfyngiadau'n raddol*[4] (Chwefror 2021), amlinellwyd effaith yr amrywiolyn a nodwyd gyntaf yng Nghaint (a elwir yn Alffa bellach) a sut y byddem yn ymateb.
- Yn *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd Diwygiedig yng Nghymru*[5] (Mawrth 2021), gwnaethom ddiweddaru ein fframwaith lefelau rhybudd i adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf am amrywiolyn Alffa a'r effaith roeddem yn gobeithio ei gweld o gyflwyno'r brechiad.

Mae'r gofynion a'r dulliau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y fframweithiau hyn yn parhau i fod yn berthnasol. Mae hyn yn golygu cydbwyso elfennau niweidiol gwahanol ymatebion a chyfyngiadau. Wrth sôn am niwed, rydym yn golygu nid dim ond effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd, ond hefyd y niwed o ran gwaethygu anghydraddoldebau, effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles, neu o ran ein heconomi.

1 Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad, Llywodraeth Cymru, 24 Ebrill 2020 https://llyw.cymru/arwain-cymru-allan-or-pandemig-coronafeirws
2 Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod, Llywodraeth Cymru, 15 Mai 2020: https://llyw.cymru/llacior-cyfyngiadau-ar-ein-cymdeithas-heconomi-dal-i-drafod
3 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru
4 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Llacio'r Cyfyngiadau'n Raddol https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru-llacior-cyfyngiadaun-raddol
5 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd Diwygiedig yng Nghymru (Mawrth 2021) https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-diwygiedig-yng-nghymru-mawrth-2021

Mae'r cydbwysedd o ran niwed yn newid

Mae'r fframwaith hwn wedi'i ddiweddaru ar sail yr hyn a wyddom am amrywiolyn Delta a'r dulliau mwy newydd sydd ar gael i ni bellach i gadw lefelau'r coronafeirws dan reolaeth, megis brechu a phrofi. Rydym hefyd yn ailedrych ar ein dangosyddion a'n meini prawf, gan nad yw ein huchelgais blaenorol i gadw achosion yn isel bellach yn gymesur, o'i gydbwyso ag elfennau niweidiol eraill yng nghyd-destun lefelau brechu uchel.

Mae data diweddar[6] yn dangos bod nifer y bobl sy'n dal COVID-19 yng Nghymru sy'n mynd i'r ysbyty wedi gostwng o tua 10% ym mis Rhagfyr 2020 – cyn cyflwyno brechlynnau COVID-19 – i 2.8% ar 26 Mehefin 2021. Mae hefyd yn dangos gostyngiad mawr yn y gymhareb rhwng marwolaethau ac achosion yn dilyn cyflwyno brechlynnau COVID-19, o 3.5% ym mis Rhagfyr 2020 i 0.5% ar 26 Mehefin 2021, yn bennaf o ganlyniad i roi'r ddau frechiad i lefelau uchel o bobl dros 70 oed.

Mae llwyddiant yr ymgyrch frechu, ynghyd â'r data newydd hwn, yn rhoi hyder i ni bod y cysylltiad rhwng haint, afiechyd difrifol sy'n golygu bod angen mynd i'r ysbyty a marwolaeth wedi'i wanhau. Nid yw'r cyfyngiadau ar fusnesau a'r ffordd rydym yn byw ein bywydau yn debygol o fod yn ymateb cymesur i fygythiad uniongyrchol y coronafeirws felly. Er gwaethaf y llacio a fu, mae yna gyfyngiadau mawr o hyd ar ein heconomi a'n bywydau cymdeithasol, sy'n effeithio ar ein lles a'n hiechyd meddwl, ac yn dwysáu anghydraddoldebau.

Dyma'r adeg iawn i nodi mesurau newydd y tu hwnt i lefel rhybudd un, y gallwn ddisgwyl iddynt fod ar waith dros fisoedd yr haf. Rydym wedi galw'r lefel hon yn lefel rhybudd sero. Mae angen cadw rhai mesurau ar lefel rhybudd sero gan fod y feirws yn parhau i gylchredeg yn ein cymunedau ac nad yw'r ymgyrch frechu wedi'i chwblhau eto – nid yw tua 30% o oedolion (tua 45% o'n poblogaeth) wedi'u brechu'n llawn eto. Mae angen i ni gydnabod hefyd fod rhai grwpiau yn dal i fod mewn perygl uchel o ganlyniadau niweidiol COVID hyd yn oed ar ôl cael eu brechu, megis pobl imiwnoataliedig.

Rydym yn hyderus bod y cydbwysedd o ran niwed yn newid. Cyn cyflwyno'r brechlynnau, byddai cyfraddau uwch o achosion pendant wedi arwain at bwysau anghynaliadwy ar ein GIG a chyflwyno cyfyngiadau cynyddol lymach. Fodd bynnag, mae'r niwed uniongyrchol gan COVID yn is, diolch i lwyddiant y rhaglen frechu.

Pam poeni am gyfraddau achosion o gwbl?

Er y gallwn edrych i'r dyfodol â rhywfaint o optimistiaeth, ni allwn fod yn hunanfodlon gan nad yw'r coronafeirws wedi diflannu. Mae cyfraddau'r achosion yn codi ar hyn o bryd oherwydd lefelau trosglwyddadwyedd uwch amrywiolyn Delta yng Nghymru a gweddill y DU, a'i ledaeniad cysylltiedig.

6 Cyngor gan y Grŵp Cyngor Technegol 2 Gorffennaf
https://llyw.cymru/cyngor-ar-y-coronafeirws-gan-y-gell-cyngor-technegol

Amrywiolyn Delta, yn sydyn iawn, yw ffurf amlycaf y feirws yn y DU bellach ers iddo ymddangos, o ganlyniad i deithio rhyngwladol yn ôl pob tebyg, ychydig fisoedd yn ôl.

Mae angen i ni gadw rhai mesurau a chamau amddiffynnol er mwyn parhau i atal y coronafeirws oherwydd:

- Mae cynnydd sylweddol ac estynedig yn nifer yr achosion yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd amrywiolion newydd yn datblygu. Gallai hyn arwain at amrywiolion y gallai'r brechlynnau fod yn llai effeithiol yn eu herbyn.[7]
- Bydd lefelau uchel iawn o heintio yn golygu bod mwy o bobl yn mynd i'r ysbyty – gan nad yw unrhyw frechlyn yn 100% effeithiol. Mae'r berthynas rhwng achosion a salwch difrifol wedi'i gwanhau ond nid yw wedi'i thorri. Pe bai nifer fawr o bobl yn mynd i'r ysbyty, gallai orlethu'r GIG yn aruthrol, ar adeg pan fo'n delio â gwaith sydd wedi cronni nad yw'n ymwneud â COVID.
- Y risg y bydd mwy o bobl yn dioddef o COVID hir – mae hyn eisoes yn cael effaith andwyol ar fywydau bob dydd bron i filiwn o bobl yn y DU ac 1.4% o boblogaeth Cymru[8]. Gallai hyn achosi ystod amrywiol o niwed hirdymor.
- Bydd lefelau heintio uchel yn golygu bod niferoedd mawr o bobl yn gorfod hunanynysu. Mae hyn yn arwain at absenoldebau ymhlith y gweithlu sy'n gallu achosi niwed economaidd a mathau eraill o niwed i unigolion a busnesau. Gall absenoldebau sylweddol effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys y GIG.

Cydweithio

Mae ein hymateb i'r pandemig wedi bod yn ymdrech ar y cyd rhwng y cyhoedd, y llywodraeth, cyflogwyr a busnesau, darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac eraill. Mae gennym ddyletswydd i barhau i weithio gyda'n gilydd i helpu i gadw'r feirws dan reolaeth.

I'r cyhoedd, mae hyn yn golygu dal ati i gymryd camau amddiffynnol. Bydd angen i ni barhau i feddwl am eraill yn ogystal ag ystyried y risg i ni ein hunain yn y ffordd rydym yn byw ein bywydau. Mae hyn yn golygu ynysu a chael prawf os oes gennym symptomau; golchi ein dwylo ac ymarfer etiquette da wrth disian; cyfyngu ar nifer y bobl rydym yn cwrdd â nhw'n gymdeithasol a'r amser rydym yn ei dreulio gyda nhw; cyfarfod y tu allan lle bynnag y bo modd ac agor ffenestri pan nad yw hynny'n bosibl; a gwisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd gorlawn a dan do, gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus, i ddiogelu eraill.

7 Trawsgrifiad o gynhadledd rithiol y wasg Sefydliad Iechyd y Byd ar COVID-19 - 7 Mehefin 2021 (who.int) https://www.who.int/publications/m/item/covid-19-virtual-press-conference-transcript-7-june-2021

8 Cyffredinrwydd symptomau sy'n parhau ar ôl i bobl gael eu heintio â'r coronafeirws (COVID-19) yn y DU: 1 Gorffennaf 2021, ONS (data'r cyfnod 4 wythnos tan 6 Mehefin) https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/prevalenceofongoingsymptomsfollowingcoronaviruscovid19infectionintheuk/1july2021

Byddwn yn cadw rheoliadau sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer rhai rheolaethau cymesur ac yn cefnogi eraill i reoli risgiau. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein dull gweithredu a byddwn yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad ar reoli risg, gan weithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac arbenigwyr eraill. Byddwn yn dal i ddilyn y data a'r cyngor gwyddonol diweddaraf ac yn rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith os bydd eu hangen arnom. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer y gaeaf.

Mae llywodraeth leol wedi chwarae rhan hollbwysig a bydd yn parhau i wneud hynny, gan reoli risgiau lleol, cefnogi busnesau, darparu cyngor a gorfodi'r gyfraith. Mae ystod eang o bartneriaid lleol wedi cefnogi ymatebion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a byddant yn dal i wneud hynny; o'r heddlu i weithwyr iechyd proffesiynol lleol, i lawer o grwpiau eraill.

Mae cyflogwyr, busnesau a phartneriaid cymdeithasol wedi gwneud ymdrechion eithriadol i gadw eu staff, eu cwsmeriaid a defnyddwyr eu gwasanaethau yn ddiogel. Bydd angen iddynt barhau i gynnal asesiadau risg ar gyfer y coronafeirws a gweithredu arnynt er mwyn dal ati i gymryd camau rhagofalus rhesymol. Bydd cadw rheolaethau priodol ar waith yn helpu i sicrhau nad yw staff yn gorfod bod i ffwrdd o'r gwaith yn ynysu a bydd yn tawelu meddyliau cwsmeriaid.

Byddwn yn parhau i ofyn i bobl weithio gartref ble bynnag y gallant wneud hynny.

Bydd darparwyr iechyd a gofal yn dal i ddarparu gofal mewn ffordd sy'n cydbwyso'r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys yr her o barhau â gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID gan ddiogelu pobl rhag niwed uniongyrchol COVID ar yr un pryd.

Wrth i ni lacio'r cyfyngiadau, rydym yn gofyn i gyflogwyr ddal ati i gymryd camau cymesur i reoli'r risgiau sy'n parhau i'w hiechyd eu hunain ac i iechyd eu gweithwyr. Bydd angen i bawb ddal i helpu er mwyn cadw Cymru'n ddiogel ac i gadw'r coronafeirws dan reolaeth.

Amrywiolyn Delta

Ers diwedd Mai, amrywiolyn Delta yw'r amrywiolyn amlycaf ledled y DU ac yng Nghymru, ac ar 6 Gorffennaf roedd yn cyfrif am fwy na 98% o achosion newydd. Ymhlith pobl o dan 30 oed y mae'r rhan fwyaf o achosion Delta ar hyn o bryd.

O'r 3,666 o achosion Delta a gadarnhawyd ar 6 Gorffennaf, roedd 48.8% heb eu brechu o gwbl, roedd 33.6% wedi derbyn eu dos cyntaf ac roedd 17.6% wedi'u brechu'n llawn. Cymerwyd 38 o bobl o'r 3,666 o achosion Delta a gadarnhawyd i'r ysbyty (1%). Mae hyn yn tanlinellu effeithiolrwydd a phwysigrwydd cael y ddau frechiad.

Mae pob dadansoddiad o amrywiolyn Delta yn dynodi ei fod yn fwy trosglwyddadwy nag amrywiolyn Alffa, a bod effeithiolrwydd y brechlyn i warchod rhag haint sy'n creu symptomau yn llai (yn enwedig pan mai un dos yn unig fydd wedi'i roi). Mae'r brechlynnau'n dal i gynnig lefel uchel o ddiogelwch yn erbyn amrywiolyn Delta, yn enwedig yn dilyn yr ail ddos.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, amcangyfrifir:

- Bod un dos o'r brechlyn yn 35% effeithiol yn erbyn afiechyd sy'n creu symptomau yn sgil Delta, o'i gymharu â 49% effeithiol yn erbyn Alffa.
- Bod ail ddos yn 79% effeithiol yn erbyn Delta ac yn 89% effeithiol yn erbyn Alffa.
- Bod un dos yn rhyw 80% effeithiol i ddiogelu rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn sgil Delta; ac yn rhyw 78% effeithiol i ddiogelu rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn sgil Alffa.
- Bod ail ddos yn rhoi diogelwch o ryw 96% rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn sgil Delta; ac yn rhoi diogelwch o ryw 93% rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn sgil Alffa.[9]

Wrth i nifer yr achosion o COVID-19 godi, mae mwy o berygl y bydd amrywiolion newydd yn datblygu. Gallai amrywiolion ddeillio o'r DU yn ogystal â chael eu mewnforio o wledydd eraill.

Ar hyn o bryd mae pedwar amrywiolyn sy'n peri pryder a naw amrywiolyn yn destun ymchwilio. Mae amrywiolyn Lambda yn un nodedig, sydd wedi bod yn gysylltiedig â chyfraddau sylweddol o drosglwyddo cymunedol mewn sawl gwlad, ond dim un achos yng Nghymru hyd yma. Rydym yn parhau i fonitro'r holl amrywiolion hyn yn ofalus.

Mae'n bwysig ein bod yn ynysu os oes gennym unrhyw rai o symptomau'r coronafeirws – neu os yw'n ofynnol gwneud hynny wrth ddychwelyd o dramor – ac yn cael prawf i sicrhau y gallwn nodi a rheoli unrhyw amrywiolion newydd yn gyflym.

Mae brechu yn rhan bwysig iawn o'n hymateb i'r pandemig – rydym yn annog pawb i fanteisio ar y cynnig i gael brechiad ac i gael y ddau ddos. Rydym yn dal i fod yn effro o safbwynt amrywiolion newydd eraill a allai ddod i'r amlwg, a allai wrthsefyll y brechlynnau presennol neu fod yn fwy trosglwyddadwy. Er bod brechlynnau'n effeithiol iawn, bydd angen i ryw 90% o'r boblogaeth fod naill ai wedi cael y ddau frechiad neu fod wedi magu imiwnedd drwy gael eu heintio er mwyn atal cadwyn drosglwyddo barhaus[10]

9 Briff Technegol Public Health England: SARS-CoV-2 variants of concern and variants under investigation in England, 17-25 Mehefin 2021 Investigation of SARS-CoV-2 variants of concern: technical briefings - GOV.UK (www.gov.uk) https://eur01.safelinks.protection.outlook.com

10 SPI-M-O: Crynodeb o waith modelu pellach ar lacio'r cyfyngiadau – Cam 4, 9 Mehefin S1287_SPI-M-O_Summary_Roadmap_step_4.pdf (publishing.service.gov.uk) https://www.gov.uk/government/publications/spi-m-o-summary-of-further-modelling-of-easing-restrictions-roadmap-step-4-9-june-2021

Brechiadau

Cyflawnwyd ein carreg filltir o gynnig dos cyntaf o'r brechlyn i bob oedolyn cymwys yng Nghymru a sicrhau bod o leiaf 75% o grŵp blaenoriaeth 10 (grŵp oedran 18-49) wedi manteisio ar y cynnig, a hynny'n gynt na'r dyddiad targed a nodwyd sef diwedd mis Gorffennaf. Ystyrir mai rhaglen frechu COVID-19 Cymru yw'r un fwyaf effeithiol ac effeithlon yn y byd.

Y cynnydd hyd at 12 Gorffennaf

Dos cyntaf:

- mae dros 90% o oedolion Cymru wedi cael eu brechiad cyntaf
- mae dros 77% o grŵp blaenoriaeth 10 (pobl 18-49 oed) yng Nghymru bellach wedi cael eu brechiad cyntaf

Ail ddos:

- mae dros 72% o oedolion Cymru wedi cael eu brechu'n llawn
- mae dros 90%, ar gyfartaledd, o grwpiau blaenoriaeth 1 i 9 (pawb dros 50 oed, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a'r rhai mwyaf agored i niwed – gan gynnwys preswylwyr cartrefi gofal a'r rhai â chyflyrau iechyd sylfaenol) wedi cael eu brechu'n llawn.

Ein blaenoriaethau

Ein nod yw sicrhau bod cyfraddau uchel ym mhob grŵp blaenoriaeth a phob grŵp oedran yn manteisio ar y ddau ddos o'r brechlyn er mwyn sicrhau'r amddiffyniad mwyaf posibl rhag y feirws, gan gynnwys yn erbyn yr amrywiolyn Delta. Erbyn dechrau mis Ebrill, roeddem wedi cynnig brechiad i bawb yng ngrwpiau blaenoriaeth 1 i 9 – mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli tua 99% o farwolaethau y gellir eu hatal o ganlyniad i COVID. Manteisiodd dros 90% ar y cynnig o frechlyn, a oedd yn rhagori ar ein targed o 75%.[11]

Mae'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn COVID-19 yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel iawn ond mae amryw o bobl o hyd ym mhob grŵp oedran sydd, er iddynt gael mwy nag un cynnig, yn parhau i fod heb eu brechu. Rydym yn gweithredu egwyddor o 'adael neb ar ôl' ac rydym wedi sicrhau cymorth i bobl a allai fod â gofynion arbennig neu anawsterau penodol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyfle cyfartal.

11 Diweddariad wythnosol rhaglen frechu COVID-19: 20 Ebrill 2021 | LLYW.CYMRU https://llyw.cymru/diweddariad-wythnosol-rhaglen-frechu-covid-19-20-ebrill-2021

Edrych tua'r dyfodol

Wrth inni ddysgu mwy am y feirws, ei amrywiolion a pha mor effeithiol yw'r brechlynnau, mae wedi dod yn gliriach bod rheoli'r feirws yn debygol o fod yn her hirdymor. Er mwyn cynnal imiwnedd, bydd angen pedwar maes ffocws ar gyfer cam nesaf ein strategaeth frechu:



* *yn aros am gyngor pellach gan JCVI*

Mae'r rhaglen frechu bellach yn gweithio ar ddau nod:

- Parhau i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig o ddos cyntaf drwy ail gynnig y brechlyn ac estyn allan i gymunedau i annog grwpiau petrus a gwrthwynebus, yn enwedig ymhlith yr ystod oedran iau, a chau'r bylchau anghydraddoldeb. Mae'r grwpiau oedran ieuengach yn arafach yn manteisio ar y cynnig o frechlyn ac mae gan y byrddau iechyd gynlluniau ar waith i dargedu'r grŵp hwn. Byddwn yn cymryd camau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal rhai pobl rhag manteisio ar eu cynnig o frechlyn. Mae'r rhaglen frechu wedi gwneud ymrwymiad clir i sicrhau cyfle cyfartal a mynediad i bawb. Y flaenoriaeth ym mis Gorffennaf a mis Awst fydd estyn allan i gymunedau gan sicrhau ymdrech weladwy ar y cyd i alluogi i unrhyw un nad yw wedi cael pigiad hyd yma i fanteisio ar eu cynnig o frechlyn.
- Cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar ail ddos, y gwyddom ei fod yn hanfodol er mwyn sicrhau amddiffyniad llawn ac yn y tymor hwy, gan gynnwys yn erbyn yr amrywiolyn Delta ac amrywiolion eraill. Rydym wedi gofyn i fyrddau iechyd ddefnyddio eu hyblygrwydd i leihau'r cyfnod rhwng y dos cyntaf a'r ail ddos i 8 wythnos. Gan fod nifer y bobl sydd wedi manteisio ar y dos cyntaf o'r brechlyn yng ngrwpiau blaenoriaeth 1 i 4 (y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i COVID-19) bellach wedi cyrraedd dros 90%, rydym am sicrhau bod lefel uchel hefyd yn manteisio ar yr ail ddos.

Nododd y strategaeth frechu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, yn amodol ar y cyflenwad o frechlynnau, ein bod yn disgwyl cynnig ail ddos i bawb sydd wedi manteisio ar y cynnig o frechlyn (erbyn canol Mehefin) erbyn diwedd mis Medi. Cyn belled ag y bo pobl yn manteisio ar eu hail ddos, **gallai 85% o bobl fod wedi eu brechu'n llawn erbyn dechrau mis Awst. Dylid nodi bod hyn yn ddibynnol ar y nifer sy'n manteisio ar y dosau cyntaf.**

Brechiad atgyfnerthu

Mae'r Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI) wedi rhoi cyngor interim ar ymgyrch dosau atgyfnerthu'r hydref, a fydd yn dechrau gyda'r grwpiau mwyaf agored i niwed a'u gofalwyr o fis Medi. Mae rhai cwestiynau pellach a threialon clinigol i'w cwblhau, er enghraifft penderfynu pa frechlynnau fydd yn cael eu defnyddio, a bydd y cyngor terfynol yn cael ei roi ddiwedd mis Awst. Yn y cyfamser, mae gwaith paratoi ar y gweill ac mae cynlluniau'r byrddau iechyd wedi'u cyflwyno.

Brechu pobl ifanc

Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) wedi adolygu data treialon clinigol mewn plant rhwng 12 a 15 oed. Daeth i'r casgliad fod y brechlyn PFIzer-BioNTech COVID-19 yn bodloni'r safonau uchel o ddiogelwch, effeithiolrwydd ac ansawdd sydd eu hangen ac mae wedi awdurdodi ei ddefnyddio ar gyfer pobl ifanc 12 i 15 oed.

Rydym yn aros am gyngor gan y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio ynglŷn ag a ddylid brechu pobl ifanc 12 oed a hŷn neu a fyddai'n well cynnig brechiadau i grwpiau penodol o blant, yn seiliedig ar eu hoedran neu ffactorau risg clinigol. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto.

Ar gyfer yr holl ymyriadau brechu hyn rhag COVID-19, bydd angen i ni ystyried sut y gellir eu darparu ochr yn ochr â rhaglenni brechu pwysig eraill fel y brechlynnau ffliw blynyddol a'r rhaglenni dal i fyny ar gyfer imiwneiddio plant o oedran ysgol yn yr hydref. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r byrddau iechyd.

Profi, Olrhain a Diogelu

Fel y disgrifiwyd yn ein strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu,[12] mae helpu'r rhai hynny â COVID-19 a'u cysylltiadau i hunanynysu wedi bod yn effeithiol iawn ac wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran cadw pobl yn ddiogel yn ystod y pandemig. Y mae hefyd wedi dangos gwerth gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn lleol; gellir ymfalchïo yng ngallu ein gweision cyhoeddus a'n gweithlu digidol, ac effeithlonrwydd ac arloesedd y sefydliadau dan sylw.

12 Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer profi'r cyhoedd ac olrhain lledaeniad y Coronafeirws yng Nghymru Profi Olrhain Diogelu | GOV. Cymru https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html

Gyda'i gilydd, rhwng 21 Mehefin 2020 a 3 Gorffennaf 2021:

- O blith y 182,573 o achosion positif a oedd yn gymwys i'w holrhain, llwyddwyd i gysylltu â 99.6% ohonynt a gofyn iddynt am fanylion eu cysylltiadau diweddar.
- O blith y 407,873 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys ar gyfer gwaith dilynol, llwyddwyd i gysylltu â 95.0% ohonynt a'u cynghori'n briodol, neu datryswyd eu hachos fel arall.

Bydd angen i'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu addasu i ymateb i'r pandemig dros y misoedd nesaf i sicrhau bod y rhaglen yn gymesur â'r risgiau o ganlyniad i COVID-19 a niweidiau ehangach. Byddwn yn:

- parhau i ddefnyddio ein strategaeth brofi i adnabod pobl sydd wedi'u heintio neu sy'n heintus; amddiffyn pobl sy'n agored i niwed; targedu brigiadau o achosion a gwella gwyliadwriaeth gymunedol a chefnogi addysg a gweithleoedd
- cysylltu â phobl sydd â COVID-19 a'u cysylltiadau agos, gan roi cyngor a chymorth – yn ariannol ac yn ymarferol – i'w helpu i hunanynysu a thorri'r cadwyni trosglwyddo a lleihau'r risgiau i eraill. Mae amrywiaeth o waith ar y gweill ar hyn o bryd gan gynnwys cynlluniau peilot, gwaith deall ymddygiad ac ymchwil i wella'r cymorth i bobl sy'n hunanynysu a fydd yn llywio ein dulliau yn y dyfodol.

Hunanynysu

Bydd yn parhau i fod yn ofynnol ichi hunanynysu os oes gennych symptomau COVID-19 neu os byddwch yn cael canlyniad prawf positif – mae gwneud hyn yn dal i fod yn ffordd bwysig o dorri cadwyni trosglwyddo.

Ond wrth inni symud i gyfnod newydd o'r pandemig, rydym yn ystyried y dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â chyflenwi'r rhaglen frechu, yr amrywiolyn Delta a throsglwyddo'r feirws. Rydym yn cydnabod y gall hunanynysu beri niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol, a dim ond pan fyddant yn dal i fod yn gymesur ac yn angenrheidiol y byddwn yn cadw gofynion yn eu lle.

Ein bwriad yw dileu'r gofyniad i bobl sy'n cael eu brechu'n llawn hunanynysu os ydynt yn gysylltiadau agos i rywun sydd wedi profi'n bositif, a byddwn yn trafod gyda phartneriaid roi mesurau diogelu ychwanegol ar waith ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cael trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid ar y gofynion i blant a phobl ifanc hunanynysu os ydynt yn gysylltiadau.

Gwneir penderfyniadau terfynol fel rhan o'r adolygiad nesaf, sydd i ddigwydd erbyn 5 Awst. Yn y cyfamser, y rheolau presennol sy'n berthnasol.

Os oes gennych symptomau coronafeirws neu os byddwch yn profi'n bositif, bydd angen i chi hunanynysu, p'un a ydych wedi cael eich brechu'n llawn ai peidio.

Teithio Dramor

Mae mesurau i atal heintiau coronafeirws newydd rhag cael eu mewnforio – yn enwedig amrywiolion newydd – o ganlyniad i deithio rhyngwladol yn bwysig a byddant yn parhau i fod yn rhan o'r mesurau sydd eu hangen dros yr haf ar lefel rhybudd sero.

Mae amrywiolion newydd yn un o'r risgiau mwyaf i lwyddiant ein rhaglen frechu a'n hymateb cyffredinol i ostwng achosion coronafeirws, a'u cadw dan reolaeth. Os bydd amrywiolyn nad yw ein brechlynnau'n effeithiol yn ei erbyn yn sefydlu ei hun yn y DU, gallem unwaith eto weld lefelau uchel o salwch difrifol, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau.

Ein cyngor cryf o hyd yw y dylai pobl osgoi teithiau rhyngwladol nad ydynt yn hanfodol yn gyfan gwbl – dyma'r flwyddyn i fwynhau gwyliau yn y DU. Byddwn yn parhau i weithio ledled y DU i gytuno ar fesurau diogelu cyffredin i leihau'r risgiau yn sgil teithio rhyngwladol.

Bydd angen i brofion parhaus a rhai gofynion cwarantîn ar gyfer teithwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd aros yn eu lle hyd y gellir rhagweld. Er ein bod yn gobeithio y gellir lleihau gofynion hyn dros amser, rhaid inni hefyd gydnabod bod y cyfyngiadau'n diogelu'r rhyddid yr ydym wedi gweithio mor galed i'w sicrhau yn y DU.

Lansiwyd gwasanaeth digidol newydd gennym i drigolion Cymru gael tystysgrifau brechu ar 25 Mehefin. Bydd hyn yn galluogi pobl sydd wedi cael eu brechu'n llawn yng Nghymru i weld eu statws brechu ac i lawrlwytho'r dystysgrif i'w defnyddio wrth deithio'n rhyngwladol. Mae'r wybodaeth hon yn cyfateb i'r hyn a ddarperir gan ap y GIG yn Lloegr.[13]

Mae tystysgrifau papur hefyd ar gael i bobl na allant ddefnyddio'r opsiwn digidol, neu nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae tua 20,000 o dystysgrifau papur wedi'u rhoi hyd yn hyn.

13 Is-grŵp Plismona a Diogelwch SPI-B: Ardystiad statws iechyd mewn perthynas ag ystyriaethau cyfreithlondeb a gorfodi COVID-19, 9 Rhagfyr 2020
https://www.gov.uk/government/publications/spi-b-policing-and-security-subgroup-health-status-certification-in-relation-to-covid-19-legitimacy-and-enforcement-considerations-9-december-2020
SPI-B: Ardystiad statws iechyd mewn perthynas â COVID-19, ystyriaethau ymddygiadol a chymdeithasol, 9 Rhagfyr 2020
https://www.gov.uk/government/publications/spi-b-health-status-certification-in-relation-to-covid-19-behavioural-and-social-considerations-9-december-2020

Ein dull gweithredu ar gyfer lefel rhybudd sero

Yn ystod y pandemig hwn, bu'n rhaid inni gyflwyno cyfyngiadau ar hawliau a rhyddid pobl i ddiogelu iechyd pobl a'u cadw'n ddiogel. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi bod yn gymesur â lefel y risg ac wedi'u hadolygu bob tair wythnos.

Rydym yn hyderus bod y lefelau brechu uchel yng Nghymru wedi gwanhau'r cysylltiad rhwng heintio a dioddef salwch difrifol a mynd i'r ysbyty – mae hyn yn golygu na fydd y don bresennol o achosion cynyddol a achosir gan yr amrywiolyn Delta yn arwain at yr un lefelau o salwch difrifol, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau â'r tonnau blaenorol. Fodd bynnag, bydd yn parhau i fod yn bwysig ein bod, drwy ein hymdrechion ar y cyd, yn cadw achosion dan reolaeth i atal niwed iechyd parhaol o ganlyniad i COVID hir a chynnydd yn nifer y bobl sydd angen gofal yn yr ysbyty o ganlyniad i COVID-19.

Byddwn yn cadw ein fframwaith lefel rhybudd presennol ar hyn o bryd oherwydd bod y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr ac mae angen inni ganiatáu ar gyfer pob cynllun posibl wrth gefn, gan gynnwys yr angen i sefydlu mesurau rheoli unwaith eto os oes angen.

Byddwn yn cyflwyno lefel rhybudd sero newydd, lle bydd mwy o bwyslais ar gyngor ac arweiniad yn hytrach na rheoleiddio.

Gwyddom y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymddwyn yn gyfrifol ond fel llywodraeth mae angen inni wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl a chreu'r amodau cywir i alluogi pobl i wneud hynny.

Bydd unrhyw symudiad i lefel rhybudd sero yn seiliedig ar gymorth a gwybodaeth barhaus am sut i reoli risg yn effeithiol.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar yr effeithiau anghymesur o ganlyniad i COVID-19 gan ofalu nad ydym yn gwaethygu'r rhain. Enghraifft allweddol yw'r angen i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i risgiau COVID-19, er enghraifft, staff mewn gwasanaethau cyhoeddus, sectorau trafnidiaeth, lletygarwch a gwasanaeth a manwerthu sy'n dod i gysylltiad rheolaidd ac aml â'r cyhoedd. Nod canolbwyntio ar y risgiau hyn drwy asesiad risg coronafeirws ffurfiol yw helpu i'w canfod a'u lliniaru. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl yn ein rhaglen frechu a byddwn yn monitro hynt y pandemig yn ofalus mewn gwahanol rannau o Gymru, gan roi sylw arbennig i ardaloedd lle mae lefelau is wedi manteisio ar y brechlynnau.

Yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, rydym yn cydnabod bod symud oddi wrth gyfyngiadau cyfreithiol yng nghyd-destun gwahanol grwpiau o gymdeithas a gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan y pandemig. Byddwn yn parhau i ganfod a cheisio lliniaru'r effeithiau ar y grwpiau hynny yr effeithir arnynt fwyaf, gan gynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a phlant sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed. Wrth inni lacio'r cyfyngiadau, mae angen inni gyflawni canlyniadau tecach i'r grwpiau hyn.

Mae'r cyfyngiadau hefyd wedi cael effaith gronnol ar wahanol grwpiau o bobl gan gynnwys ar blant a phobl ifanc. Ni fydd llacio cyfyngiadau i lefel rhybudd sero yn adfer sefyllfa deg i lawer o grwpiau o bobl a byddwn yn parhau i geisio lliniaru'r effaith ar y rhai yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur.

Dangosyddion a meini prawf ar gyfer monitro

Rydym wedi diwygio ein dangosyddion i adlewyrchu ymddangosiad yr amrywiolyn Delta a llwyddiant y rhaglen frechu. Mae'r dangosyddion hyn, ynghyd â gwybodaeth leol ac arbenigedd, yn ein helpu i benderfynu pa bryd y mae angen inni weithredu.

Bydd dangosyddion yn parhau i gynnwys y gyfradd achosion (cyfartaledd treigl saith diwrnod) fel dangosydd arweiniol allweddol y mae perthynas fesuradwy o hyd ag achosion yn yr ysbyty a marwolaethau (er bod y cyswllt wedi'i wanhau'n fawr). Efallai na fydd cynnydd mewn achosion bellach yn golygu'r un risg ag o'r blaen oherwydd y cyswllt gwannach ond bydd cyfraddau cyson uchel yn bryder o hyd. Mae dangosyddion allweddol eraill yn cynnwys:

- cymhareb achosion i dderbyniadau COVID-19
- cymhareb achosion i farwolaethau COVID-19
- effeithiolrwydd brechlynnau COVID-19 cyfredol a gynigir a'r nifer sy'n manteisio arnynt
- lefelau imiwnedd y boblogaeth (yn ôl grwpiau oedran a/neu grwpiau blaenoriaeth, yn enwedig gan nad yw plant wedi cael cynnig y brechlyn)
- achosion mewn cartrefi gofal neu leoliadau caeedig eraill lle mae pobl sy'n agored i niwed
- pwysau ar ysbytai'r GIG (hyd yr arhosiad mewn ysbyty yn ogystal â nifer y derbyniadau i'r ysbyty a staff y GIG sy'n hunanynysu)
- cyfraddau achosion COVID-19 yn y DU (yn enwedig mewn ardaloedd yn agos at Gymru, fel Gogledd-orllewin Lloegr, a all arwain at ragor o achosion yng Nghymru).
- Perfformiad y rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu.

Mae'r Timau Rheoli Achosion yn defnyddio nifer o ddangosyddion o dabl "Coch Oren Gwyrdd" i asesu'r risg o ganlyniad i COVID-19 ac mae set o gamau gweithredu i'w defnyddio ar bob lefel risg. Mae'r dangosyddion ar gyfer sefyllfa risg uchel a risg uchel iawn yn cyd-fynd yn agos â'r prif ddangosyddion uchod.

Mae'r rhestr lawn o ddangosyddion wedi'i diweddaru yn atodiad A. Nid yw asesu dangosyddion yn broses fecanistig. Er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau, rydym yn dadansoddi ac yn asesu'r data o'r dangosyddion, dirnadaeth o fodelu a phrofiad gwledydd eraill ochr yn ochr â chyngor a gwybodaeth arbenigol broffesiynol gan bartneriaid lleol. Bydd y prif ddangosyddion uchod yn ein galluogi i ganfod yn gyflym a yw COVID-19 yn creu niweidiau sy'n arwain at orfod cymryd camau adfer.

Rydym yn cyhoeddi crynodeb o ddata allweddol bob wythnos mewn adroddiad sefyllfa ar ein gwefan.[14]

Ymateb lleol a rhanbarthol

Mae'r angen i weithredu'n lleol yn ganolog i'r cynlluniau atal a rheoli achosion lleol a roddwyd ar waith ledled Cymru. Mae'r rhain wedi'u diweddaru'n ddiweddar a bydd awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol lleol yn parhau i weithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol i reoli risgiau lleol.

Er ein bod yn gobeithio y gellir rheoli a mynd i'r afael ag achosion yn lleol, mae angen inni sicrhau bod gennym gynlluniau wrth gefn ar waith pe bai cyfraddau heintio ar draws Cymru yn cyrraedd lefelau anghynaliadwy. Mae'r fframwaith lefelau rhybudd yn rhoi hyblygrwydd inni roi rheoliadau ar waith yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Gobeithiwn na fydd angen inni gyflwyno cyfyngiadau newydd ond os bydd angen byddwn yn ystyried cymesuredd unrhyw fesurau rydym yn eu cyflwyno yn ofalus.

Bydd ein dangosyddion diwygiedig, a ddisgrifir uchod ac yn atodiad A, ynghyd â gwybodaeth leol ac arbenigedd proffesiynol, yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach. Mae'r cydbwysedd rhwng y niweidiau wedi newid a bydd y meini prawf ar gyfer ailosod cyfyngiadau caeth yn uwch.

Lefel rhybudd sero (mesurau llinell sylfaen)

Mae lefel rhybudd sero yn nodi'r mesurau diogelu iechyd a fydd yn parhau i fod ar waith i leihau lledaeniad y feirws, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n agored i niwed a'r rhai nad ydynt wedi cael eu brechu'n llawn eto. Rydym yn gobeithio symud i lefel rhybudd sero ar Awst, cyn belled nad oes unrhyw amrywiolion newydd sy'n peri pryder yn cael eu canfod yng Nghymru; bod derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau o ganlyniad i COVID-19 yn aros ar lefelau cymharol isel y gellir eu rheoli ac os yw'r rhaglen frechu'n parhau yn ôl y disgwyl. Erbyn dechrau mis Awst rydym yn rhagweld y bydd 85% o oedolion wedi cael dau ddos o'r brechlyn, sy'n uchel iawn ac yn galluogi llacio cyfyngiadau'n fwy helaeth. Mae hyn yn ddibynnol ar bobl yn manteisio ar eu hail ddos ar yr un gyfradd â'r dos cyntaf.

Ystyriwyd cyngor gan Grŵp Cynghori Gwyddonol y DU ar Argyfyngau (SAGE) a'n Grŵp Cynghori Technegol (TAG) am effeithiolrwydd yr ystod o ymddygiadau amddiffynnol a mesurau eraill wrth ddatblygu lefel rhybudd sero. Yn benodol, mae'r hierarchaeth mesurau rheoli wedi'i blaenoriaethu ac mae lefel rhybudd sero wedi'i chynllunio i gadw rhai o'r mesurau amddiffynnol mwyaf effeithiol.

Y mesurau mwyaf effeithiol yw'r rhai sy'n atal pobl heintus rhag lledaenu a throsglwyddo'r feirws – mae'r rhain yn cynnwys elfennau craidd y system Profi, Olrhain, Diogelu, fel mynd am brawf a hunanynysu pan fydd gan berson symptomau.

Y mesurau effeithiol eraill yw'r rhai sy'n cyfyngu ar y siawns y bydd person heintiedig yn mynd i rywle lle gall heintio eraill, er enghraifft, parhau i annog pobl i weithio gartref.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr annhegwch y mae COVID-19 wedi'i achosi a gofalu nad ydym yn ei waethygu. Er enghraifft, mae angen inni ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i risgiau coronafeirws, hyd yn oed os oes lefelau is o achosion. Mae hyn yn cynnwys staff mewn gwasanaethau cyhoeddus, mewn sectorau lletygarwch a gwasanaeth a manwerthu sy'n dod i gysylltiad rheolaidd ac aml â'r cyhoedd. Bydd cadw ffocws ar y risgiau hyn drwy asesiad risg ffurfiol yn ganolog i'n dull gweithredu. Enghraifft arall yw'r angen i ystyried yr effaith ar grwpiau sy'n llai tebygol o gael eu brechu – plant o dan 18 oed, pobl o rai cymunedau lleiafrifoedd ethnig – yn enwedig pan fyddant yn ymgynnull mewn un ardal neu leoliad daearyddol.

Egwyddorion ar gyfer Lefel rhybudd sero

Cynlluniwyd mesurau lefel rhybudd sero yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

a.	Maent yn darparu ar gyfer llacio'r cyfyngiadau i'r graddau eithaf posibl, gan gydnabod y niwed ehangach a achosir gan gyfyngiadau, a lleihau lledaeniad y feirws ar yr un pryd.
b.	Maent yn cefnogi ailadeiladu'r economi, sicrhau bod busnesau yn hyfyw yn ariannol unwaith yn rhagor a gweithredu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n fwy arferol.
c.	Dylai'r cyfyngiadau sy'n weddill ar wahanol fathau o ryddid penodol, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, fod yn rhai nad ydynt ond yn cael effaith andwyol gymharol fach ac nad ydynt yn peri i anghydraddoldebau neu niwed ehangach grynhoi.
d.	Dylai mesurau gynnwys y rheini sy'n helpu i ymgorffori ymddygiadau a thueddiadau cadarnhaol hirdymor sy'n gysylltiedig â nodau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Asesiadau Risg coronafeirws a Mesurau Rhesymol

Byddwn yn cadw'r gofyniad cyfreithiol i fusnesau a sefydliadau eraill gynnal asesiad risg sy'n benodol i'r coronafeirws. Er bod rheoliadau eraill yn cael eu llacio, bydd angen i weithleoedd a mannau cyhoeddus barhau i roi mesurau lliniaru ar waith i leihau risgiau. Mae'n ofynnol eisoes i gyflogwyr sicrhau diogelwch staff a dylai'r gofyniad i gynnal asesiad risg coronafeirws hefyd barhau i ategu'r ddyletswydd hon. Bydd y gofyniad i ymgynghori â staff ar yr asesiad risg hefyd yn cael ei gadw.

Bydd angen i'r asesiad risg coronafeirws – fel sy'n digwydd ar hyn o bryd – ystyried pa fesurau rhesymol y gellir eu rhoi ar waith i reoli'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronfeirws. Er y bydd dal yn ofynnol gweithredu mesurau rhesymol, bydd y Rheoliadau yn rhoi mwy o hyblygrwydd i fusnesau wrth iddynt bennu beth sydd ei angen i reoli risgiau.

Yn fwy arwyddocaol na dim arall, ni fydd y rheoliadau bellach yn rhoi amlygrwydd penodol i gadw pellter corfforol o 2m oherwydd efallai y bydd dull arall o leihau'r risg yn awr. At hynny, ni fyddant yn nodi gofynion penodol ar gyfer safleoedd trwyddedig, megis gwasanaeth bwrdd. Ni fyddant ychwaith yn nodi beth sydd angen bod ar waith ar gyfer safleoedd manwerthu, megis gwneud cyhoeddiadau. Bydd angen i bob busnes neu sefydliad ystyried pa fesurau sy'n rhesymol i'w rhoi ar waith, a dylid cynnwys cyfuniad o fesurau.

Bydd angen i fusnesau a sefydliadau eraill barhau i ddarparu gwybodaeth am y risgiau a'r mesurau a gymerwyd ar y safle. At hynny, mae rhwymedigaeth benodol hefyd yn awr ar gyflogwyr i roi gwybod i'w gweithwyr am y risgiau a nodwyd mewn asesiadau risg ac am y mesurau rhesymol a gymerwyd i'w lleihau.

Gorchuddion wyneb

Mae gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do wedi bod yn nodwedd o'r pandemig ers canol 2020 ac mae cryn gefnogaeth ymhlith y cyhoedd o hyd i'r mesur amddiffynnol hwn mewn rhai sefyllfaoedd.

Mae peth tystiolaeth y gall gorchuddion wyneb gael effaith rannol o ran amddiffyn rhag trosglwyddo COVID-19.[15] Maent yn fwy effeithiol os yw'r rhan fwyaf o bobl mewn lleoliad penodol yn eu gwisgo. Felly mae mantais i gynnal gofyniad rheoleiddiol i wisgo gorchuddion wyneb mewn rhai amgylchiadau neu leoliadau – yn enwedig yn ystod cyfnodau pan fo lefelau uwch o'r coronafeirws yn cylchredeg ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau gofal iechyd, ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mewn tacsis, a phob lleoliad dan do arall sy'n agored i'r cyhoedd.

Mae cerbydau trafnidiaeth gyhoeddus, tacsis a bysiau ysgol fel arfer yn fannau bach, caeedig ac mae'r opsiynau eraill sydd ar gael i bobl os ydynt yn pryderu am eu risg unigol yn gyfyngedig. Os yw trenau neu fysiau yn orlawn, efallai na fydd yn bosibl i bobl ddewis peidio â theithio arnynt os mai dyma yw eu hunig ffordd o deithio i'r gwaith, er enghraifft.

Mae lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn amgylcheddau risg uchel, lle mae pobl sy'n agored i niwed ac sy'n sâl yn gallu bod mewn mwy o berygl a lle mae niferoedd mawr o bobl yn gallu bod yn bresennol ar unrhyw un adeg. Gall cadw'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn yr ardaloedd hyn helpu i ddiogelu eraill nad oes ganddynt o bosibl unrhyw ddewis ond ymweld â nhw.

Bydd y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb yn y rhan fwyaf o leoliadau rheoleiddiedig dan do eraill hefyd yn cael ei gadw ar lefel rhybudd sero i gychwyn. Rydym yn disgwyl llacio'r gofyniad cyfreithiol i wisgo gorchuddion wyneb yn raddol, ond mae'n debygol y bydd y gofynion hyn yn eu lle am fwy o amser ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn lleoliadau gofal iechyd.

Byddwn yn dechrau ar y broses drwy lacio'r gofyniad cyfreithiol (sydd eisoes yn gyfyngedig) i wisgo gorchuddion wyneb mewn lleoliadau lletygarwch o 7 Awst.

Rydym yn dechrau gyda lleoliadau lletygarwch oherwydd, ar gyfer y rhan fwyaf o'r amser y bydd pobl yn ei dreulio ynddynt, nid yw'n ofynnol eisoes iddynt wisgo gorchudd wyneb oherwydd yr eithriad sy'n gymwys wrth fwyta bwyd ac yfed diod. Yn ogystal â hynny, gall pobl ddewis ar y cyfan i beidio ag ymweld â safle o'r fath os oes perygl mawr y gallent gael salwch difrifol pe baent yn dal y feirws. Fodd bynnag, rhaid i fusnesau lletygarwch dal cynnal asesiad risg coronafeirws a gallant benderfynu o hyd i gadw'r gofyniad i bobl wisgo gorchuddion wyneb yn eu safleoedd. At hynny, er na fydd bellach yn ofyniad cyfreithiol byddwn yn parhau i gynghori pobl i wisgo gorchudd wyneb lle bynnag y bo hynny'n ymarferol yn yr amgylcheddau hyn.

15 Physical distancing, face masks, and eye protection to prevent person-to-person transmission of SARS-CoV-2 and COVID-19: a systematic review and meta-analysis - The Lancet
https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(20)31142-9/fulltext

Bydd cadw'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn y rhan fwyaf o leoliadau rheoleiddiedig dan do, yn arbennig ar adeg pan fydd nifer yr achosion yn codi, yn helpu pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheini a arferai warchod eu hunain, i deimlo'n fwy hyderus wrth adael eu cartref.

Fel gyda'r rheoliadau presennol, bydd y gofyniad yn berthnasol i bawb oni bai eu bod wedi'u heithrio, a hynny bob amser oni bai bod y cyd-destun yn golygu bod hyn yn amhosibl. Bydd y gofynion hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn enwedig pan fydd cyfraddau'n gostwng ledled Cymru.

Mae'r Gweinidog Addysg wedi ysgrifennu i bob ysgol a choleg i nodi na fydd gwisgo gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei argymell mwyach o fis Medi ymlaen.

Mae ysgolion a cholegau yn symud i Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau Lleol a ddatblygwyd gyda'r sector ar gyfer penderfynu sut y dylid defnyddio rhai ymyriadau, megis gwisgo gorchuddion wyneb, gan ddibynnu ar lefel y risg yn lleol.

Defnydd domestig o bàs COVID y GIG fel prawf bod unigolion wedi'u brechu

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau yng Nghymru i orfodi'r defnydd o dystysgrif o statws COVID fel amod i ymwelwyr gael mynediad i unrhyw leoliad. Fodd bynnag, mae'r seilwaith wedi'i ddatblygu (drwy bàs COVID y GIG) a bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud yn siŵr bod y pàs COVID ar gael i'w ddefnyddio'n ehangach pe bai busnesau ac unigolion yn dewis defnyddio'r system.

Mae pàs COVID y GIG yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i hwyluso teithio rhyngwladol allan o'r wlad ac, yn Lloegr, fel adnodd dewisol ar gyfer cael mynediad i ddigwyddiadau mawr. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn annog defnydd o'r pàs, yn dilyn 'cam 4' Lloegr, mewn clybiau nos a lleoliadau eraill o 17 Gorffennaf.

Gweithio gartref

Gofynnwyd i'r rheini a allai weithio gartref i wneud hynny fel rhan o ymdrechion cyffredinol Cymru i reoli lledaeniad y feirws. Byddwn yn annog pobl i barhau i weithio gartref pan fo hynny'n bosibl.

Mae SAGE a TAG wedi bod yn glir mai gweithio gartref yw un o'r ymddygiadau amddiffynnol allweddol a all helpu i leihau cyfraddau trosglwyddo.[16] Drwy barhau i weithio gartref pan fo'n bosibl, gallwn roi mwy o ryddid mewn meysydd eraill. Bydd gweithio gartref yn cael ei gadw yn ein canllawiau statudol fel un o'r mesurau rhesymol y gall cyflogwr ei gymryd i liniaru risgiau.

Mae llawer o resymau dros annog pobl i weithio gartref am ran o'r wythnos neu'r wythnos gyfan. Ymhlith y manteision ar gyfer yr economi a busnesau lleol, unigolion a'r amgylchedd y mae: lleihad mewn amser teithio a chostau; mwy o hyblygrwydd a chydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith; cynnydd mewn cynhyrchiant; llai o draffig, yn enwedig ar adegau brig; llai o lygredd aer a sŵn; a'r cyfle i ailgynllunio canol ein trefi a'n dinasoedd.

Os oes gan bobl symptomau'r coronafeirws, mae'n bwysig iawn nad ydynt yn dod i'r gwaith. Gall polisïau salwch a gweithio gartref cefnogol helpu i atal lledaeniad y coronafeirws mewn gweithleoedd. Pe bai'r haint yn lledaenu fel hyn, gallai arwain at frigiad o achosion gyda mwy o bobl eto yn gorfod hunanynysu neu'n cael salwch difrifol.

Bydd dal angen i rai pobl ddychwelyd i swyddfeydd a gweithleoedd, gan gynnwys ar gyfer eu llesiant eu hunain. Pan na fydd pobl angen dod i'r swyddfa neu i'r gweithle, mae cyfrifoldeb ar gyflogwyr i gadw pobl yn ddiogel. Rhaid i gyflogwyr barhau i gynnal asesiad risg coronafeirws penodol a chymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, fel cadw pellter corfforol a sicrhau bod ardaloedd yn cael eu hawyru yn well.

Byddwn yn ymgysylltu â Thasglu Gweithio'n Hyblyg Llywodraeth y DU i ymchwilio i weld a allai rhoi hawl i weithwyr weithio gartref gael ei ymgorffori mewn cyfraith cyflogaeth a gadwyd yn ôl.

Addysg

Wrth inni symud i lefel rhybudd sero, byddem yn disgwyl i leoliadau gofal plant a chwarae, ysgolion, colegau a phrifysgolion weithredu mewn ffordd sydd mor agos i'r hyn sy'n arferol â phosibl. Atal yr haint rhag cael ei chyflwyno i'r lleoliad yw'r ffordd fwyaf effeithiol o atal trosglwyddiadau COVID-19 yn ein lleoliadau gofal plant ac addysgol – dyna fydd yr egwyddor sylfaenol o hyd. Os bydd plentyn, dysgwr neu aelod o staff yn profi'n bositif am y coronafeirws neu os bydd ganddynt unrhyw symptomau COVID-19, dylent hunanynysu ac ni ddylent fynd i'r lleoliad gofal plant neu addysg, a dylent hefyd gael prawf.

Byddai'r pwyslais parhaus ar arferion hylendid dwylo da a mesurau glanhau ac awyru effeithiol yn parhau, ynghyd â defnyddio asesiadau risg fel sail ar gyfer llywio unrhyw fesurau lliniaru a allai fod yn angenrheidiol ar lefel leol, gan gynnwys gwisgo gorchuddion wyneb mewn lleoliadau addysg. Byddai pob lleoliad gofal plant ac addysg yn cael ei annog i barhau i weithredu'r mesurau rheoli a amlinellir yn ein canllawiau i'r sector sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

16 Datganiad consensws gan y Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig - Modelu, Is-grŵp Gweithredol (SPI-M-O) ar gyfer y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE), 30 Mehefin 2021 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1000410/S1298_SPI-M-O_Consensus_Statement.pdf

Cymorth i fusnesau

Cyhoeddwyd ar 30 Mehefin y bydd busnesau yng Nghymru sy'n parhau i gael eu heffeithio gan gyfyngiadau'r coronafeirws yn derbyn rhwng £1,000 a £25,000, i gwmpasu'r cyfnod hyd at 31 Awst. Byddai unrhyw leoliad neu fusnes a gaewyd gan reoliadau yn gymwys am rhwng £5,000 a £25,000. Mae ein Cronfa Adferiad Diwylliannol, sydd ar gael i sefydliadau ac unigolion yn sector y celfyddydau, a'r sectorau creadigol, diwylliannol, digwyddiadau a threftadaeth, yn cwmpasu'r cyfnod tan 30 Medi.

Os bydd angen cyfyngiadau newydd fel ymateb i amrywiolyn newydd neu unrhyw ddatblygiadau eraill a ddaw i'r amlwg mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd, byddwn yn adolygu'r angen am gymorth ychwanegol.

Y tu hwnt i'r cyfnod argyfwng, os yw'r sefyllfa'n caniatáu, bwriadwn ddarparu cronfa datblygu ac adfer busnes, a fydd yn cefnogi busnesau gydag arian cyfatebol i ail-lansio, datblygu a thyfu. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yn y *Rhaglen Lywodraethu*[17].

Mae'r Gronfa Dyfodol yr Economi bresennol yn ein galluogi i fod yn hyblyg o ran sut y gallwn helpu i ddiwallu anghenion busnes ac mae Banc Datblygu Cymru, gyda'i gyllid busnes hyblyg, hefyd yn darparu cymorth ychwanegol.

Nid oes dulliau ar gael inni ar gyfer ymyrryd ar lefel y gyflogres – mae ein cynlluniau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â Chynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a Chynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU. Ni ddylai'r cynlluniau hyn a ddarperir ar draws y DU gyfan, ac ymyriadau eraill, gael eu tynnu yn ôl cyn bod yr economi yn barod.

Cyfathrebu ynghylch materion iechyd y cyhoedd a'u hyrwyddo

Drwy gydol y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl ledled Cymru am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd a'r rheoliadau. Rydym wedi defnyddio'r holl sianeli cyfathrebu sydd ar gael inni, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyfryngau, y cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu a byddwn yn parhau i ddilyn y dull hwn.

Wrth inni symud i lefel rhybudd sero, bydd yn ofynnol inni ddechrau ar gyfnod newydd, penodol o gyfathrebu gyda mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb personol. Byddwn yn:

- Rhoi mwy o bwyslais ar 'normaleiddio' ymddygiadau amddiffynnol i reoli lledaeniad y feirws a chadw ein hunain ac eraill yn ddiogel.
- Canolbwyntio ar gyngor ac arweiniad yn hytrach na chyfyngiadau – yr hyn y dylai pobl fod yn ei wneud, yn hytrach na'r hyn y caiff neu na chaiff rhywun ei wneud yn gyfreithlon.

17 https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu

- Rhoi sicrwydd i unigolion a allai fod yn bryderus o hyd a yw'n ddiogel i ddychwelyd i ffordd fwy 'normal' o fyw, ac annog eraill i'w trin mewn modd sensitif.
- Rhoi gwybod i bobl am y risgiau y maent yn eu hwynebu mewn gwahanol leoliadau ac wrth ymgymryd â gwahanol weithgareddau a'r ffordd orau o liniaru'r risgiau hynny.

Mae'r dull hwn wedi hen fagu plwyf fel rhan o'n hymgyrch gyfathrebu, Diogelu Cymru, a fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru wrth inni symud y tu hwnt i lefel rhybudd un. Bydd yr ymgyrch yn parhau i esblygu i adlewyrchu newid o reoleiddio i roi arweiniad a chyngor, tuag at ddwyn perswâd a dylanwadu ar bobl.

Bydd cyd-destun y DU yn ehangach hefyd yn cael ei ystyried a byddwn yn cysoni â gweinyddiaethau eraill y DU pan fydd yn briodol gwneud hynny. Os bydd angen hefyd, byddwn yn cyfathrebu i egluro pam mae ein hymateb polisi ni'n wahanol, fel yr ydym wedi'i wneud drwy gydol y pandemig.

Casgliadau

Bydd ein dull yn parhau i gael ei ysgogi gan ddata a'i lywio gan gyngor gwyddonol a meddygol i helpu i gadw pobl yn ddiogel.

Mae'r rhaglen frechu wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'n bywydau ni i gyd. Dros yr haf, rydym yn gobeithio symud i'r lefel rhybudd sero newydd a rhoi'r mesurau a nodir yn y *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* hwn, sydd wedi'i ddiweddaru, ar waith. Bydd rhai cyfyngiadau ar waith o hyd i ddiogelu pobl, ond bydd mwy o bwyslais ar roi cyngor, gwybodaeth a chymorth i helpu pobl i wneud dewisiadau i ddiogelu eu hunain a'u teuluoedd. Er bod brechlynnau'n cynnig amddiffyniad rhag COVID-19, mae angen inni hefyd annog newid mewn diwylliant ac ymddygiad ar gyfer y tymor hwy er mwyn i bobl allu gweithredu ar symptomau COVID posibl drwy hunanynysu a chael prawf.

Byddwn yn ailedrych ar ein dull gweithredu unwaith eto yn yr hydref wrth inni ddechrau paratoi ar gyfer cyfnod y gaeaf – cyfnod yr ydym eisoes wedi dechrau cynllunio ar ei gyfer. Gobeithiwn weld y coronafeirws yn newid i fod yn glefyd endemig, â ninnau'n gallu ei reoli mewn ffordd debyg i glefydau trosglwyddadwy eraill, ac ochr yn ochr â chlefydau eraill. Bydd y cynnydd dros yr haf a'r paratoadau ar gyfer y gaeaf yn rhoi'r wybodaeth a'r data diweddaraf inni ar gyfer pennu'r camau nesaf hynny.

Atodiad A: Dangosyddion lefelau rhybudd COVID

	Gwyliadwriaeth a gwybodaeth gyflym – ar gyfer symud i lefelau rhybudd uwch	Dangosyddion ôl-fynegi a dangosyddion rhagfynegi ychwanegol – ar gyfer symud i lawr y lefelau rhybudd
Trosglwyddo, digwyddedd a mynychder	**Beth yw'r gyfradd drosglwyddo yn y gymuned ac mewn gweithleoedd, cartrefi gofal, carchardai ac ysbytai? A yw'r cyfraddau'n cynyddu?** Cyfradd yr achosion a gadarnhawyd am bob 100,000 o bobl dros gyfnod treigl cyfartalog o saith diwrnod (yn dibynnu ar brofion, rheoli brigiadau lleol a'r graddau y mae'r feirws yn trosglwyddo yn y gymuned). Yr isaf yw'r gyfradd achosion, yr isaf yw'r risg y bydd y feirws yn mwtadu oherwydd cystadleuaeth gan y brechlyn. Cyfraddau achosion a gadarnhawyd ar gyfer pob grŵp oedran neu boblogaeth (e.e. myfyrwyr, pobl ddigartref) a dealltwriaeth o achosion, achosion lluosog a brigiadau (gweler y cwestiwn nesaf). Positifedd profion dros saith diwrnod (gall y strategaeth brofi ddylanwadu ar hyn). Amcangyfrif o'r rhif atgynhyrchu (R), yn seiliedig ar brofion COVID-19 positif neu dderbyniadau i'r ysbyty, yn llai nag 1. **A oes dealltwriaeth o'r clystyrau, yr achosion lluosog a'r brigiadau a nodwyd?** Tystiolaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol lleol (gan gynnwys unrhyw dystiolaeth gan dimau rheoli achosion neu dimau rheoli brigiadau). Tystiolaeth gan awdurdodau lleol neu bartneriaid lleol.	**Beth yw'r gyfradd drosglwyddo yn y gymuned ac mewn gweithleoedd, cartrefi gofal, carchardai ac ysbytai?** Arolwg Heintiadau COVID y Swyddfa Ystadegau Gwladol – amcangyfrifon mynychder cymunedol. **Sut beth fydd y gyfradd drosglwyddo wrth symud ymlaen?** Amcanestyniadau o achosion a chyfraddau digwyddedd er mwyn osgoi cynnydd sylweddol. Amcangyfrif consensws (gan ddefnyddio nifer o ffynonellau data) o'r rhif atgynhyrchu. Cymryd samplau o ddŵr gwastraff er mwyn profi am COVID-19 (yn cael ei ddatblygu) **A yw'r clystyrau, yr achosion lluosog a'r brigiadau a nodwyd dan reolaeth?** Gwyliadwriaeth a gwybodaeth gyflym.

	Gwyliadwriaeth a gwybodaeth gyflym – ar gyfer symud i lefelau rhybudd uwch	Dangosyddion ôl-fynegi a dangosyddion rhagfynegi ychwanegol – ar gyfer symud i lawr y lefelau rhybudd
Capasiti'r GIG	**A yw nifer y gwelyau llawn mewn ysbytai ac unedau gofal dwys ar lefelau y gellir eu rheoli?** Gwelyau llawn mewn ysbytai gydag achosion o COVID-19 wedi'u cadarnhau. Gwelyau llawn mewn ysbytai yn gyffredinol. Derbyniadau i'r ysbyty. Gwelyau gofal critigol sy'n cael eu defnyddio gan gleifion â COVID-19 wedi'i gadarnhau. Yr holl welyau gofal critigol sy'n cael eu defnyddio. Absenoldeb staff y GIG oherwydd salwch. Gwybodaeth am les staff y GIG. Y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) sydd ar gael. **A yw nifer y derbyniadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cynyddu'n gyflym?** Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd COVID-19. Lefelau asesu CRITCON sy'n diffinio capasiti unedau gofal dwys mewn argyfwng.	**A yw nifer y gwelyau llawn mewn ysbytai ac unedau gofal dwys ar lefelau y gellir eu rheoli?** Gwyliadwriaeth a gwybodaeth gyflym. **A oes digon o gapasiti mewn ysbytai ar gyfer brigiadau yn y dyfodol?** Amcanestyniadau o dderbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau dros y ddwy i chwe wythnos nesaf.

	Gwyliadwriaeth a gwybodaeth gyflym – ar gyfer symud i lefelau rhybudd uwch	Dangosyddion ôl-fynegi a dangosyddion rhagfynegi ychwanegol – ar gyfer symud i lawr y lefelau rhybudd
Marwolaethau	**A yw'r cyfraddau marwolaeth yn sgil COVID-19 yn cynyddu?**	**A yw'r cyfraddau marwolaeth yn sgil COVID-19 yn cynyddu?**
	Amcangyfrifon lechyd Cyhoeddus Cymru o farwolaethau oherwydd COVID-19.	Amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o farwolaethau.
	Hysbysiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o farwolaethau.	Amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o farwolaethau mewn cartrefi gofal.
Amrywiolion	**Pa amrywiolion sydd yng Nghymru ar hyn o bryd ac a oes unrhyw dystiolaeth o amrywiolion sy'n effeithio ar y brechlynnau presennol?**	
	Tystiolaeth am yr amrywiolion sy'n bresennol yng Nghymru, a'u heffaith ar lefelau trosglwyddo a chanlyniadau iechyd.	
	Ystyried a allai unrhyw amrywiolion dan archwiliad neu amrywiolion sy'n peri pryder effeithio ar ba mor effeithiol yw'r brechlyn.	
	Canran yr amrywiolion na ellir eu cysylltu â theithio (yn cael ei datblygu).	
Imiwnedd a Brechlynnau	**Sut y bydd cyflwyno'r brechlyn yn effeithio ar drosglwyddiad, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau?**	**Pa gyfran o'r boblogaeth sydd â rhywfaint o amddiffyniad rhag COVID-19, naill ai drwy haint flaenorol neu frechiad?**
	Nifer y bobl sydd wedi'u brechu: dos cyntaf, ail ddos ac unrhyw ddosau atgyfnerthu.	Amcangyfrif o ganran y boblogaeth sydd wedi profi'n bositif am wrthgyrff.
	Effeithiolrwydd y brechlyn o ran amddiffyn unigolion, gan gynnwys ailheintio.	Y gymhareb heintio a marwolaeth.
	Y cwmpas brechu (faint sy'n cael eu brechu).	

Caiff hyn ei ategu gan ddadansoddiad ychwanegol sy'n ystyried y sefyllfa ledled y DU ac yn rhyngwladol.